**EPT-07-02 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 17 Ebrill 2002 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 3:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Tom Middlehurst, Cadeirydd | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| (yn dirprwyo dros Richard Edwards) | |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| (yn dirprwyo dros Karen Sinclair) | |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Denzil Jones (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Kay Powell (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol**

0. 1 Croesawodd Tom Middlehurst Aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i'r cyfarfod. Cofnododd ddiolch y Pwyllgor i'r cyn Aelodau, Rhodri Glyn Thomas a Geraint Davies, am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Brian Hancock, Richard Edwards, yr oedd Lorraine Barrett yn dirprwyo drosto, a Karen Sinclair, yr oedd Ann Jones yn dirprwyo drosti.

2. Datganwyd diddordeb gan Val Lloyd fel Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac am fod ei g•r yn aelod o Awdurdod Heddlu De Cymru.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-07-02 (td 1)

1. Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, hysbysodd y Gweinidog y pwyllgor am y materion canlynol:

- Is-ddeddfwriaeth – roedd rheoliadau ar bacio gwastraff wedi cael eu cyflwyno drwy'r drefn weithredol;

- Masnachfraint reilffyrdd Cymru a'r Gororau – byddai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn cyflwyno cynigion masnachfraint graidd i'r wyth ymgeisydd cyn-cymhwyso, a byddai ganddynt 60 diwrnod i ymateb. Y disgwyl oedd y byddai rhestr fer ar gael yn yr haf, ac y câi ymgeisydd ffafriedig ei gyhoeddi yn yr hydref, gyda'r fasnachfraint i ddechrau ym Mai 2003;

- Rheilffordd Bro Morgannwg – o dan y rheolau Cymorth Gwladol, rhaid oedd hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd wrth gymeradwyo'r ailagor. Roedd hyn ar y gweill, ond nid oedd effaith hyn ar amseriad ailagor y rheilffordd yn glir eto.

2.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

**Diogelu'r Amgylchedd**

- Nantygwyddon – byddai'r Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar yr ohebiaeth oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd at Lywodraeth y DU ynglyn â'r modd y rheoleiddiwyd safle claddu sbwriel Nantygwyddon;

- Cyfarwyddeb CE ar oergelloedd – roedd y rheoliadau ar drwyddedu offer gwaredu symudol wedi dod i rym. Rhyddhawyd cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol am y flwyddyn gyntaf i roi'r Gyfarwyddeb ar waith.

**Cynllunio**

- Canllawiau cynllunio – roedd gwaith pellach ar asesiadau iechyd yn cael ei gynnig fel rhan o'r diwygiadau a nodwyd yn y papur gwyrdd, 'Cynllunio – Cyflawni dros Gymru'. Roedd gweithgor yn edrych ar ganllawiau diwygiedig ar ynni adnewyddadwy, a'r disgwyl oedd y bydd Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig (TAN 8) yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn yr hydref. Ni fyddai hyn yn effeithio ar y penderfyniadau a wneir ar geisiadau am ffermydd gwynt sydd wedi cael eu galw i mewn ac sydd ar fin cael eu hystyried gan Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio.

**Trafnidiaeth**

- Masnachfraint reilffyrdd Cymru a'r Gororau – byddai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori ar draws Cymru i geisio barn teithwyr am y cynigion masnachfraint. Roedd yr Awdurdod i fod i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y tymor;

- Llwybrau Diogel i'r Ysgol – câi manylion y cynllun eu hanfon at Aelodau newydd y Pwyllgor;

- Partneriaeth Camerâu Diogelwch – roedd y cynllun peilot yn Ne Cymru yn cael ei ehangu; roedd gan Ogledd Cymru ei gynllun ei hun;

- Teithio am ddim ar fysiau lleol – llongyfarchodd yr Aelodau y Gweinidog ar y cynllun. Roedd yn cael ei gynnal fel partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr

trafnidiaeth yng Nghymru, a dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at yr awdurdod lleol perthnasol;

- Rhaglen Cefnffyrdd – roedd y rhaglen yn rhagdybio cynnydd o £30m yn y gyllideb er mwyn gwireddu'r rhaglen erbyn 2008, yn amodol ar amryw ofynion statudol.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol ar y Gynhadledd Datblygu Cynaliadwy a oedd yn cael ei chynnal y diwrnod hwnnw.

**Eitem 3: Adroddiad Blynyddol** - EPT-07-02 (td 2)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiadau blynyddol drafft. Awgrymodd y Gweinidog y dylai'r Pwyllgor adolygu gweithrediad y Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio ryw dro yn y dyfodol.

**Eitem 4: Rhaglen Waith** – EPT-07-02 (td 3)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y rhaglenni gwaith manwl a strategol. Câi'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ei wahodd i'r cyfarfod gyda Glas Cymru ar 1 Mai. Câi sesiwn anffurfiol ei chynnal ar 11 Gorffennaf i edrych yn fanwl ar y materion allweddol sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff.

4.2 Bioamrywiaeth fydd testun yr adolygiad polisi nesaf. Adolygiad byr, yn hoelio'r sylw yn benodol iawn ar y maes fyddai, fel bod modd ei gwblhau cyn etholiadau'r Cynulliad ym Mai 2003. Awgrymodd yr Aelodau y dylid adolygu materion rheoli yn ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, adolygu'r Nodyn Cyngor Technegol ar gadwraeth natur a chynllunio (TAN 5), a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth yn gyffredinol. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn drafftio cylch gwaith a rhaglen waith i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 13 Mawrth 2002** - EPT-06-02 (min)

5.1 Mabwysiadwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 1 Mai 2002 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2002**